Canllawiau ynghylch yr Wybodaeth Ragarweiniol

Bydd y tîm cydadolygiadau yn casglu ynghyd ac yn dadansoddi'r wybodaeth sydd eisoes ar gael am bob un o'r pedwar maes ar ddeg lle bydd barn ffurfiol yn cael ei ffurfio (Adran 0.6 yn y Llawlyfr) o wahanol ffynonellau:

- gwerthusiad blynyddol o berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol;
- dangosyddion perfformiad a data ystadegol eraill;
- gwybodaeth ynghylch Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella;
- arolygwyr ac archwilwyr eraill;
- yr awdurdod lleol.

Bydd y tîm cydadolygiadau yn ceisio defnyddio gwybodaeth sydd ar gael eisoes ac yn osgoi ceisiadau dyblyg. Byddant yn cwrdd â chynrychiolwyr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru (gan gynnwys archwilydd yr awdurdod, y rheolwr perthynas, arolygydd cyswllt y gwasanaethau cymdeithasol), arolygiaethau ac asiantaethau gwella eraill i geisio cael gwybodaeth am yr awdurdod lleol a'i berfformiad.

Gofynnir i'r awdurdod lleol ddarparu:

- yr wybodaeth ddiweddaraf (fel y bo'n ofynnol) mewn perthynas â gwybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer gwerthuso perfformiad ac mewn perthynas â dangosyddion perfformiad;
- gwybodaeth sy'n ofynnol i gynnal arolygon a samplau o ffeiliau achos (rhestri o ddefnyddwyr, atgyfeiriadau ac achosion);
- data am weithgareddau mewn perthynas â phrosesau rheoli achosion;
- canlyniadau unrhyw arolygon diweddar ynghylch defnyddwyr-gofalwyr ac arolygon staff a wnaed gan yr awdurdod ei hun;
- gwybodaeth sy'n ofynnol i gynnal y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad (pwy yw pwy a beth sydd ar gael ble, rhestri o ddarparwyr gwasanaethau a sefydliadau sy'n bartneriaid, dadansoddiad o strwythurau timau a lleoliad y gwasanaethau);
- rhai dogfennau strategol penodol (megis cynlluniau statudol).

Lle bo modd, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhoi ar dempled (Adran 1.03 yn y Llawlyfr) sy'n cael ei ddefnyddio i goladu data meintiol yn bennaf am berfformiad a gweithgareddau ym mhob un o'r pedwar maes ar ddeg lle bydd barn ffurfiol yn cael ei ffurfio. Yna caiff y templed ei rannu â'r awdurdod lleol gan y tîm cydadolygiadau a byddant yn gyfrifol ar y cyd am gwblhau'r fersiwn derfynol.

Mae llywodraeth ganol yn ystyried bod hunanasesiad yn un o brif egwyddorion arolygiadau o wasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cymeradwyo defnyddio'r dull hwn hefyd. Un o'r prif ffynonellau o wybodaeth yw dadansoddiad yr awdurdod ei hun o'i sefyllfa mewn perthynas â'r pedwar maes ar ddeg a dilysrwydd y dystiolaeth y gall ei

chynhyrchu. Mae hyn ar gael i'r tîm cydadolygiadau ar ffurf yr hunanasesiad a gwblhawyd gan yr awdurdod lleol yn rhan o'r gwerthusiad blynyddol o berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol.

Yn y templed, gofynnir i'r awdurdod lleol ddiweddaru ei asesiad a'r dystiolaeth a ddarperir i'w gefnogi.

Gofynnir i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth mewn ffordd sy'n glir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a fydd yn helpu'r tîm cydadolygiadau i ddod i gasgliadau am y ddau brif gwestiwn sef *Pa mor dda yw'r gwasanaethau?*ac *I ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa dda i allu cynnal a gwella'r gwasanaethau?* Pwysleisir y byddai o fudd:

- i roi deunydd y gellir ei fesur yn hytrach na disgrifiadau hirfaith;
- i gynnwys gwybodaeth am batrymau perfformiad;
- i ddarlunio'r pwyntiau gyda data;
- i ddangos tystiolaeth o weithgarwch a llwyddiannau;
- i ddangos yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys enghreifftiau achos.

Gofynnir i'r awdurdod gynhyrchu fersiwn electronig o'r templed gwybodaeth ragarweiniol a dau gopi o'r holl gyfeiriadau sydd ynddo. Dylai'r naill gopi o bob cyfeiriad gael ei gyflwyno i'r tîm cydadolygiadau ar gyfer y llyfrgell a dylai'r llall gael ei gadw yn yr awdurdod fel y bo ar gael i'r adolygwyr ei weld yn ystod eu hymweliad â'r safle. Mae rhai dogfennau safonol, megis cynlluniau statudol, y bydd eu hangen ar y tîm cydadolygiadau a cheir canllawiau pellach ynghylch y rhain yn nogfen 1.3.2.

Lle bydd angen i wybodaeth am wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau fod ar gael gan nifer o asiantaethau, dylai'r awdurdod ystyried y ffordd orau o ddod o hyd i'r wybodaeth honno a'i chyflwyno. Mae'r hunanasesiad yn hynod o ddefnyddiol lle cafodd ei wneud ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. Efallai y bydd yr awdurdod lleol am iddo fod ar gael i'r rhanddeiliaid hynny a fydd yn cael eu cyf-weld yn ystod yr adolygiad, gan gynnwys aelodau o'r staff.